YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

DYDD Llun, 20 Ionawr 2025

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: A. Lenny (Aelod o'r Cabinet) (Yn rhithwir)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
S. Jones, Arweinydd Cymorth Tenantiaeth (Yn rhithwir)
A. Owen, Prisiwr Cynorthwyol (Yn rhithwir)
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Yn bersonol)

Aml leoliad - Ystafell Bwyllgor 3, Llawr Gwaelod - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 2.46 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol

2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 1AF TACHWEDD 2024

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2024, gan ei fod yn gywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am unigolyn penodol (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. Mae cyhoeddi rhenti unigol yn ddiangen ac yn drech na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth gan y byddai datgelu'n ymyrraeth ddiangen a gormodol ar fywydau preifat a theuluol yr unigolion dan sylw.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran dyledion tenantiaid presennol a chyn-denantiaid ac yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500.

Nododd yr Aelod Cabinet yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad a rhoddodd ystyriaeth i'r adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid a oedd yn manylu ar y rhesymau dros geisio dileu dyledion.

PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.

CYN GANOLFAN DDYDD MYRDDIN, HEOL IOAN, CAERFYRDDIN

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad y cyfeirir ato uchod yn drech na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad gan y gallai datgelu'r wybodaeth danseilio safbwynt y cyngor mewn unrhyw drafodaethau eraill ynghylch hyn ac eiddo tebyg eraill yn y Sir, a hynny ar draul cyllid cyhoeddus.

Atgoffwyd yr Aelod Cabinet, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2024 (gweler Cofnod 5) y cytunwyd i roi prydles 10 mlynedd i Wasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin (CDAS) ar gyfer swyddfeydd llawr cyntaf Canolfan Ddydd Myrddin gynt. Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio awdurdod i brydlesu'r adeilad cyfan i CDAS a byddai'r brydles newydd yn disodli'r brydles ar gyfer y llawr cyntaf yn unig fel y cytunwyd ym mis Tachwedd.

Cyflwynodd y Prisiwr Cynorthwyol wybodaeth i'r Aelod Cabinet am amgylchiadau arbennig yr achos a rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau eraill ar gyfer y brydles. Roedd y cynigion a gyflwynwyd i'w hystyried yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelod Cabinet i wrthwneud y polisi arferol o gynnig yr adeilad ar y farchnad agored ar sail buddion economaidd, cymunedol ac iechyd y gwasanaethau a ddarperir gan y tenant, fel y manylir yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

5.1 **rhoi prydles 10 mlynedd i Wasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin (yn disodli'r brydles ar gyfer y llawr cyntaf yn unig fel y cytunwyd gan yr Aelod Cabinet yn mis Tachwedd 2024).**

5.2 **bod y brydles yn cael ei chynnig heb hysbysebu'r adeilad i'w rentu ar y farchnad agored;**

5.3 **bod y ddwy flynedd gyntaf heb rent.**

_____ **_____**

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**